**Darluniau ar y sgrin:** Mae cerflun derw o ffigwr gwrywaidd, tal, mewn amwisg sy'n cynrychioli 'Ceidwad y Goedwig' yn sefyll ar lwybr coetir. Mae golygfeydd o'r goedwig i'w gweld drwy gydol y fideo.

**Adroddwr:** "Calendr ydw i, a phob tymor yn ei dro,

Yr haul yn gynnes braf, wedyn eira at y to,

Wardrob ydw i yn llawn dillad mawr a mân,

Blancedi mwsogl pleth a dillad isaf gwlân.

Marchad ydw i yn llawn o fwydydd hardd,

Brechdanau lindys blasus a gwlithod ffres o'r ardd,

Plasty ydw i, lle gwych i seren bop,

Allweddi o'r coed ynn a derw o'r llawr i'r top.

Ystafell ddosbarth ydw i, o dan yr awyr las,

Hanes o fy nghwmpas a'm dychymyg yn mynd ar ras,

Wyneb y coetir, y llyfr natur gorau erioed,

Hwb hynafol o wybodaeth, croeso mawr i'r coed."

**Testun ar y sgrin:** Ewch am dro i Goedwig Tremain, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr. CF31.

Chwiliwch am: ystlum lleiaf, delor y cnau, llygoden y coed, clychau'r gog.

Ewch i gwrdd â Cheidwad y Goedwig.